Brawdgarwch

Thema: Gwrthdaro, adeiladu gobaith

Gwlad dan sylw: Angola

Nod: Codi ymwybyddiaeth am ganlyniadau gwrthdaro ar draws y byd.

Adnoddau/paratoadau:
- Dau ddisgybl i ddarllen
- Cyflwyniad PowerPoint *Brawdgarwch* ar gael o www.christianaid.org.uk/learn
  (Dewisol: gellir gosod llun o chwaer/brawd neu ffrind yn sleid 2 o PowerPoint.)

Cyflwyniad

1. Dangoswch sleid 1 o'r cyflwyniad PowerPoint wrth i'r plant ddod i mewn.

(Dewisol) Dangoswch sleid 2: chi a brawd/chwaer/ ffrind
Croesawch y plant i'r gwasanaeth a dangoswch slide 2 o'r cyflwyniad. Gofynnwch: 'Ydi chi erioed wedi cweryla gyda'ch brawd, chwaer, neu ffrind?' Os yn bosibl, rhannwch stori bersonol am ffrae deuluol neu gyda ffrind.

Dwedwch: 'Mae cweryl rhwng brodyr a chwiorydd neu ffrindiau yn beth annifyr ond hefyd yn gyffredin pan fyddwn ni'n tyfu fyny. Yn aml fe ddwedwn ni bethau cas a difaru wedyn, neu hyd yn oed ymddwyn yn fwy corfforol nag sydd dda. Colli tymer, taflu dyrnau o bosib, tynnu gwallt ac weithiau gollwng dagrau, a gobeithio, mewn amser, bydd pawb yn ymddiheuro a gwneud iawn.

'Y bore 'ma' rydym am glywed stori am ddau frawd a buodd yn ymladd yn erbyn ei gilydd, ond yn yr achos hwn doedd gyda nhw ddim dewis ac roedd yn dipyn mwy na ffrae deuluol.'

Dangoswch y sleidiau perthnasol wrth i'r ddau wirfoddolwr ddarllen y stori.

Dangoswch sleid 3: Luis ac Amaral
Disgybl 1**:** Fy enw yw Amaral. Fe dyfais i fyny gyda un brawd, Luis, a phum chwaer. Roedd Luis a fi yn arfer cysgu yn yr un ystafell wely, a gweithio gyda'n gilydd yn y caeau gyda'r ychen, nôl dŵr a choed tân. Roeddem yn hoffi chwarae cuddio, hela cwningod a llygod mawr, a physgota.

Disgybl 2 : Luis ydw i. Roeddwn i'n ifanc iawn pan symudodd Amaral i ffwrdd i astudio, ond fe fyddai'n dod nô i'r pentref adeg gwyliau ac fe ddysgodd fi i reidio beic. Roeddwn i mor falch o gael brawd mawr oedd â beic!

Dangoswch sleid 4: map o Angola
Athrawes/athro: Daw Amaral a Luis o Angola, yn Ne Orllewin Affrica. Bu rhyfel yn Angola pan roedd Luis ac Amaral yn blant. Fel y rhan fwyaf o frodyr hŷn, roedd Amaral yn amddiffynnol iawn o'i frawd bach.

Disgybl 1: Pan ddechreuodd y rhyfel dihangodd y teulu i'r mynyddoedd. Fe gariais i Luis ar fy nghefn am bythefnos wrth i ni ffoi. Roedd e'n fach ac yn ofnus. Fe ddioddefom ni lawer am nad oedd blancedi, dillad na bwyd gyda ni, ac roedd hi'n bwrw glaw yn aml. Bu'n rhaid i ni gysgu o dan goed neu mewn ogofau. Bywyd ci oedd ein bywyd ni. Yn y diwedd roeddem mor newynog yn y mynyddoedd nes gorfod mynd nôl i'r pentref i chwilio am fwyd.

Disgybl 2: Pan gafodd Amaral ei gymryd gan y milwyr roeddwn i mor drist oherwydd fe oedd yr unig frawd oedd gen i. Doedd ef ddim yno i helpu ac felly roedd yn rhaid i fi ddeffro'n gynnar bob dydd i fwydo'r gwartheg a helpu dad yn y caeau, er mod i dal yn ifanc.

Disgybl 1: Cyn i mi gael fy herwgipio doeddwn i ddim wedi gweld gwn o'r blaen nac yn gwybod unrhyw beth am arfau. Roedd hi'n anodd iawn gorfod mynd o fod yn fachgen ysgol i fod yn filwr, yn enwedig gan fy mod i yn erbyn y rhyfel. Roeddwn i eisiau astudio, nid ymladd, ond doedd gen i ddim dewis.

cymorth cristnogol

Gellir defnyddio'r deunydd hwn ar gyfer amcanion addysgiadol, ond i ddosrannu'n ehangach, neu er elw masnachol, rhaid cael caniatâd gan Cymorth Cristnogol.
Ysgrifennwyd gan Wendy Young ar gyfer Cymorth Cristnogol, Hydref 2008.
www.christianaid.org.uk/learn

Dangoswch sleid 5/rhan 1: Llun o Luis
Disgybl 2: Yn aml yn y nos byddwn i'n cuddio lawr wrth yr afon gyda fy nhad rhag ofn i'r milwr ddod o hyd i mi a'm cipio. Un diwrnod, wrth i fi fynd i'r ysgol, ces fy herwgipio gan filwyr y Mudiad Poblogaidd dros Ryddhau Angola, yr MPLA. Dim ond 14 oeddwn i. Ces i fy hyfforddi gan yr MPLA fel cadlywydd tanciau ac roeddwn yn gyfrifol am 10 tanc ac 20 o filwyr. Doeddwn i ddim eisiau ymladd yn y fyddin ond roeddwn yn gwybod byddwn i'n cael fy saethu taswn i'n ceisio dianc.

Dangoswch sleid 5/rhan 2: Llun o Amaral
Disgybl 1: Dysgodd yr Undeb Cenedlaethol dros Annibyniaeth Llwyr i Angola, UNITA, fi sut i ymladd a defnyddio AK47s a thaflegrau, a'm rhoi ar flaen y gad. Gallwn i ddim rhedeg i ffwrdd neu fe fyddwn wedi cael bwled yn fy mhen. Wedi bod yn y fyddin am sawl blwyddyn fe safais ar ffrwydryn tir a bu bron i mi farw. Bu'n rhaid i'r meddyg dorri fy nghoes i ffwrdd ac fe es i weithio mewn gwersyll ffoaduriaid yn Zambia.

Disgybl 2: Yn 1992 fe ddwedwyd wrthyf fod Amaral wedi marw mewn damwain ffrwydryn tir, ac fe wnaethom ni, fel teulu, drefnu ei angladd.

Disgybl 1: Yn 2004, pan oedd y rhyfel drosodd, fe lwyddais i ddod o hyd i'm brawd Luis. Fy chwaer a'n cysylltodd ni ar y ffôn, ac am funud neu ddau roedd tawelwch - doedden ni ddim yn gwybod beth i'w ddweud.
Disgybl 2: Ar ôl bod ar wahân am bron i 30 mlynedd fe dreulio'n ni'r Flwyddyn Newydd gyda'n gilydd. Roeddwn i'n arswydo pan ddes i wybod bod Amaral a fi wedi ymladd yn yr un frwydr ar ochrau gwahanol. Roedd yn ofnadwy i sylweddoli gallwn i fod wedi lladd fy mrawd.

Disgybl 1: Rwy'n diolch i Dduw mod i'n nabod fy mrawd eto, ac er nad oes gen i waith nac arian, rwy' dal yn fyw. Rwyf mor falch ein bod gyda'n gilydd heddiw. Mae'n dipyn o syndod ac yn bleser mawr ar ôl bod ar wahân mor hir.

Disgybl 2: Rwy wedi dod o hyd i hapusrwydd wrth weithio gyda phobl ifanc. Rwy'n obeithiol am y dyfodol ac wedi ymrwymo i ddysgu heddwch, yn enwedig gyda phobl ifanc. Rwy'n teimlo'n optimist pan fyddai'n darllen Datguddiad yn y Beibl: 'Daw diwrnod newydd, bydd popeth sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Bydd haul newydd yn codi a bywyd newydd yn cael ei fwynhau.'

Athro/Athrawes: Mae'n amlwg fod hyn yn enghraifft wahanol o wrthdaro teuluol na'r hyn sy'n gyfarwydd i ni. Gorfodwyd Amaral a Luis i ymladd; doedden nhw ddim yn gwybod eu bod yn ymladd yn erbyn ei gilydd. Fe rwygwyd sawl teulu yn Angola gan y rhyfel cartref ac roedd nifer o frodyr wedi lladd brodyr, a dim ond yn ddiweddarach yn sylweddoli fod y 'gelyn' yn frawd iddynt.

Mae Amaral a Luis yn gweithio gyda sefydliad lleol yn Angola o'r enw IECA (Eglwys Gynulleidfaol Angola), sy'n helpu pobl sy'n mynd adref wedi'r rhyfel i ail-adeiladu eu bywydau. Mae IECA yn cael ei ariannu gan Cymorth Cristnogol ac felly mae'r arian sy'n cael ei godi yn y DU yn helpu pobl Angola, yn enwedig y plant, i weithio i hyrwyddo heddwch a chymod.

Myfyrdod

Dangoswch sleid 6: geiriau wrth Sant Francis o Assisi
Roedd Amaral a Luis a'r teulu ar wahân am 30 mlynedd. Meddyliwch am funud neu ddau am bwysigrwydd pobl, teulu a ffrindiau yn ein bywydau ni.
Ystyriwch y geiriau hyn o eiddo Sant Francis o Assisi . Bydded i stori Amaral a Luis wneud i ni oedi cyn ein cweryl nesaf a dewis heddwch yn hytrach na chynnen, adref ac yn y byd.

Gweddi

Duw Dad,
Fel mae Amaral yn rhoi diolch i ti am ei fod yn nabod ei frawd eto, diolchwn ni am deulu a ffrindiau yn ein bywydau. Helpa ni i ddewis byw ynghyd mewn heddwch ac undod yn hytrach na dewis cynnen.
Fel mae Luis yn edrych ymlaen at ddiwrnod newydd a bywyd newydd i bobl Angola gweddïwn fod y gwaith o adfer strwythurau a pherthynas yn parhau yn Angola. Gweddïwn am heddwch yn y mannau lle mae gwrthdaro yn parhau i rwygo teuluoedd a bywydau. Amen.

Gweithredu

Dyma rai syniadau er mwyn datblygu thema'r gwasanaeth.

- **Arddangosfa lluniau John Keane.** Mae arddangosfa 'Children in Conflict' gan yr artist John Keane i'w weld ar www.christianaid.org.uk/issues/conflict/childreninconflict/gallery.aspx Mewn trafodaeth cylch, rhowch gyfle i'r plant edrych ar ac ymateb i bob llun. Gellir trafod cwestiynau fel: beth sy'n achosi rhyfel? Oes y fath beth a rhyfel gyfiawn? Pwy sy'n cael ei effeithio gan ryfel? Beth ellir ei wneud i hyrwyddo heddwch?
- **Darnau o'r jig-so.** Gofynnwch i'r plant i ddarganfod beth yw'r amodau heddwch mewn gwlad ôl-wrthdaro fel Angola. Oes yna bethau sy'n gyffredin wrth geisio sefydlu heddwch? Gall disgyblion greu 'jig-so heddwch' gweledol ar gyfer arddangosfa yn yr ysgol. Gall www.visionofhumanity.org/gpi/home.php fod yn fan cychwyn defnyddiol i ddod o hyd i wybodaeth.

© Cymorth Cristnogol, Hydref 2008
Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851 Rhif cwmni 5171525